De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol

2019-2020

Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith yn Nhîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cyflwyniad

Ers mis Mawrth 2017 bu'n rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a'i dîm gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn hysbysiad cydymffurfio cyfreithiol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y gellir eu gweld ar ein gwefan.

Ers eu cyflwyno mae wedi bod yn bleser gennym ymgorffori naws y Safonau a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig o ran galluogi pobl De Cymru i ddefnyddio eu dewis iaith pan fyddant yn cysylltu â ni. Rydym hefyd wedi bod yn awyddus i hyrwyddo'r Safonau yn y gweithle er mwyn annog ein staff ein hunain i ddefnyddio'r Gymraeg pan fo'n bosibl.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â'r Safonau a hyrwyddo cynhwysiant y Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020.

Trosolwg Mewnol

Rydym yn cynnal Gweithgor Cymraeg, a gaiff ei gadeirio gan yr Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb. Mae'r Grŵp hwn yn gyfrifol am y gwaith parhaus o fonitro a goruchwylio ein cydymffurfiaeth a'n cynnydd o ran cynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae aelodau'r grŵp yn gweithredu fel 'Hyrwyddwyr' y Gymraeg o fewn eu meysydd portffolio eu hunain, ac yn chwarae rhan yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r Safonau ym mhob rhan o'r tîm. Mae'r grŵp yn adrodd i gyfarfodydd y tîm llawn yn nhîm y Comisiynydd er mwyn sicrhau bod materion Cymraeg yn cael eu cynnwys yn ein strwythurau llywodraethu.

Cyn belled â phosibl rydym yn cydweithio â Heddlu De Cymru wrth hyrwyddo cynhwysiant iaith.

Cynnwys y Safonau yn 2019/20

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r tîm wedi bod yn gweithio'n galed, drwy'r Gweithgor Cymraeg mewnol, er mwyn sicrhau bod cynhwysiant y Gymraeg yn rhan allweddol o'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac o ddiwylliant ein tîm.

Mae aelodau newydd o staff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i fynychu sesiynau ymwybyddiaeth ar Safonau'r Gymraeg a sut mae angen eu rhoi ar waith. Mae pob aelod o'r staff yn cael dogfen ganllaw gynhwysfawr hefyd, a ddatblygwyd gan y gweithgor, er mwyn eu cefnogi gyda'u cyfrifoldebau Cymraeg unigol.

Sicrheir bod pob aelod o'r staff yn gallu cael gafael ar ystod o wybodaeth a deunyddiau Cymraeg er mwyn rhoi gwasanaeth cyson i'r cyhoedd. Cymerwyd camau ymarferol hefyd er mwyn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cadarnhaol. Mae enghreifftiau wedi cynnwys rhoi system teleffoni newydd ar waith sy'n galluogi pobl i ddewis eu dewis iaith a rhannu llyfrgell o ymadroddion Cymraeg defnyddiol i bob aelod o'r staff.

Mae'r gweithgor mewnol yn parhau i fonitro'r broses o roi'r Safonau ar waith fel mater o drefn.

Safonau Darparu Gwasanaethau

Rydym yn gweithio i gyrraedd ein safonau 'Darparu Gwasanaethau' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- Cynnwys testun safonol 'cysylltwch â ni' ar ein dogfennau yn nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg
- Cynnwys troednodiadau ar waelod pob e-bost a llythyr yn egluro ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd siaradwyr Cymraeg yn nodi eu gallu i siarad Cymraeg ar droednodiadau e-bost.
- Bydd llofnodion e-bost, negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa' a negeseuon peiriannau ateb i bob rhif llinell dir yn ddwyieithog.
- Caiff y sawl sy'n cysylltu â phrif linell ffôn tîm y Comisiynydd gyfarchiad dwyieithog. Yna, cânt gymorth yn Gymraeg nes cyrraedd pwynt lle nad yw'n bosibl mwyach gan nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael neu am fod angen siarad ag arbenigwr ar bwnc nad yw'n gallu siarad Cymraeg. Caiff pob galwr Cymraeg ei drin â chwrteisi a pharch a byddwn yn gwneud popeth a allwn i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol.
- Pan fyddwn yn cysylltu â phobl am y tro cyntaf ac nad ydym yn ymwybodol o'u dewis iaith, byddwn yn gofyn iddynt a hoffent gyfathrebu â ni yn Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y person hwnnw eisoes wedi derbyn cyswllt yn Saesneg neu am fod ei ddewis iaith eisoes yn hysbys.
- System i gofnodi manylion y sawl sy'n rhoi gwybod i ni eu bod am gyfathrebu â ni yn Gymraeg.
- Bydd pob cyfarfod, digwyddiad a chynhadledd gyhoeddus yn cynnig cyfle i sgwrsio yn Gymraeg. Bydd gofyn i unigolion roi gwybod i ni os hoffent gyfathrebu yn Gymraeg erbyn dyddiad penodol er mwyn i ni allu trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn briodol.
- Bydd unrhyw ddogfennau defnydd safonol a ddefnyddir o fewn y tîm yn ddwyieithog.
- Bydd trydariadau o gyfrif Twitter y Comisiynydd (@commissionersw) yn ddwyieithog.
- Bydd ein polisi ar gyfer dyfarnu grantiau yn ystyried yr angen i ystyried ac i hyrwyddo'r Gymraeg yn y broses ddyfarnu.

Pethau o bwys yn ystod 2019/20:

- Gwnaethom gynnal nifer o sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys mynd i ddigwyddiadau cymunedol a diwrnodau hwyl. Gwnaethom hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob un o'n digwyddiadau, a chynnig gwasanaethau Cymraeg i bawb a oedd yn bresennol. Roeddem yn falch bod aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys pobl ifanc, yn ymgysylltu â ni yn Gymraeg.
- Gwnaethom benderfynu adolygu ein system teleffoni, sy'n galluogi galwyr allanol i ddewis a hoffent gyfathrebu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dylai'r adolygiad sicrhau ei bod yn haws cysylltu â ni, a bydd yn ei gwneud yn haws i ni gadw cofnod o ddewis iaith.
- Rydym wedi parhau i noddi Cynorthwyydd Personol y Comisiynydd i ddysgu Cymraeg am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn gwella'r gwasanaeth rheng flaen Cymraeg y gellir ei ddarparu gan y tîm.
- Gwnaethom lansio gwefan newydd, sy'n gwbl ddwyieithog
- Mae'r Comisiynydd wedi ymgymryd â nifer o gyfweliadau â'r cyfryngau yn Gymraeg.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Safonau Darparu Gwasanaethau yn y cyfnod adrodd hwn.

Safonau Llunio Polisi

Rydym yn gweithio i gyrraedd ein safonau 'Llunio Polisi' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- Pan gaiff polisïau neu brosiectau eu sefydlu neu eu hadolygu a phan fyddant yn destun proses 'Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb' (EIA), bydd hyn yn cynnwys asesiad o oblygiadau o ran y Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Caiff sesiynau codi ymwybyddiaeth eu darparu i aelodau newydd o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb/y Gymraeg yn effeithiol.
- Bydd ymgynghoriadau neu ymchwil yn achub ar gyfleoedd i wahodd sylwadau ar sut y gallem hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Ers cyflwyno'r Safonau mae hyn wedi digwydd yn fewnol, ac mae staff wedi mynegi eu barn ar sut y gallwn hyrwyddo'r iaith.

Pethau o bwys yn ystod 2019/20:

- Gwnaethom ddarparu'r sesiynau hyfforddiant Cynhwysiant y Gymraeg i aelodau newydd o staff, a hyfforddiant gloywi i staff presennol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar sut i asesu polisïau a phrosiectau ynghylch eu heffaith ar y Gymraeg.

Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Safonau Darparu Gwasanaethau yn y cyfnod adrodd hwn.

Safonau Gweithredol

Rydym yn gweithio i gyrraedd ein safonau 'Gweithredol' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- Caiff aelodau o'r staff gynnig cael dogfennau adnoddau dynol yn Gymraeg neu i gynnal prosesau adnoddau dynol yn Gymraeg. Hyd yma nid oes neb o blith y staff wedi gofyn am y cyfleuster hwn.
- Mae cyfleusterau gwirio sillafu Cymraeg mewnol ar gael at ddefnydd siaradwyr Cymraeg.
- Pan fyddwn yn hysbysebu ar gyfer unrhyw swydd newydd, byddwn yn ymgymryd â phroses o asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y swydd. Darperir y canlyniadau asesu dros y dudalen.
- Caiff prosesau recriwtio dwyieithog eu cynnig.
- Caiff pob aelod o staff newydd sy'n ymuno â thîm y Comisiynydd ei friffio ar ofynion a phrosesau Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod sefydlu.
- Darperir sesiynau gloywi o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y bo angen yn ystod y flwyddyn.
- Mae Polisi Cymraeg yn y Gweithle yn amlinellu'r modd y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo ymhlith tîm y Comisiynydd.

Pethau o bwys yn ystod 2019/20:

- Gwnaethom ddarparu'r sesiynau hyfforddiant Cynhwysiant y Gymraeg i aelodau newydd o staff, a hyfforddiant gloywi i staff presennol. Roedd hyn yn cynnwys

hyfforddiant ar sut i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd a'r staff mewnol yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac y cydymffurfir â Safonau'r Gymraeg.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Safonau Gweithredol yn y cyfnod adrodd hwn.

Safonau Cadw Cofnodion

Rydym yn gweithio i gyrraedd ein safonau 'Cadw Cofnodion' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- Rydym yn cadw cofnodion o wybodaeth sy'n ymwneud â'n hysbysiad cydymffurfio ar gyfer Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft, rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion mewn perthynas â chydymffurfio, yn ogystal â chofnod o nifer yr aelodau sy'n siarad Cymraeg a nifer y swyddi gwag a hysbysebir gennym sy'n cael eu hasesu ar gyfer sgiliau Cymraeg (a chanlyniadau'r asesiadau).

Er mwyn bodloni gofynion ein Safonau Cadw Cofnodion, rydym yn darparu'r wybodaeth mewn perthynas â'r cyfnod adrodd hwn isod:

Gofyniad Cofnodi	Nifer
Nifer ein cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg	Mae 7 aelod o staff yn nodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg (bron yn rhugl neu'n rhugl). Mae hyn yn cynrychioli 22% o'r aelodau staff.
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn a gategoreiddiwyd fel swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn a gategoreiddiwyd fel swyddi lle roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl cael eich penodi i'r swydd	0
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn a gategoreiddiwyd fel swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol	14 (swyddi gwag mewnol ac allanol)
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn a gategoreiddiwyd fel swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	0
Nifer y cyflogeion a aeth ar gyrsiau hyfforddi a gynhaliwyd yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd	0

Cwynion

Mae gennym bolisi sefydlog ar waith er mwyn delio ag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gellir dod o hyd i hwn ar ein gwefan. Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Casgliad

Mae Safonau'r Gymraeg yn agwedd bwysig ar waith cynhwysiant a chydraddoldeb y tîm. Rydym yn gweithio'n dda i gydymffurfio â'r safonau fel rhan o'n busnes arferol, ac yn ymrwymedig i sicrhau cynhwysiant fel rhan o'n diwylliant. Fodd bynnag, gwyddom nad ydym yn cael popeth yn iawn bob amser a chroesawn farn ein cymunedau a'n staff ar sut y gallem wella.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

I gael rhagor o wybodaeth am eich Comisiynydd dilynwch ni ar:

/commissionersw

www.southwalescommissioner.org.uk

Neu cysylltwch â ni drwy:

commissioner@south-wales.police.uk

01656 869 366

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg